



Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Gwasanaethau cymorth dysgwyr i ddisgyblion 14-16 oed

Mai 2014

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ▲ ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- ▲ ysgolion cynradd;
- ▲ ysgolion uwchradd;
- ▲ ysgolion arbennig;
- ▲ unedau cyfeirio disgyblion;
- ▲ ysgolion annibynnol;
- ▲ addysg bellach;
- ▲ colegau annibynnol arbenigol;
- ▲ dysgu oedolion yn y gymuned;
- ▲ gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- ▲ addysg a hyfforddiant athrawon;
- ▲ Cymraeg i oedolion;
- ▲ dysgu yn y gwaith; a
- ▲ dysgu yn y sector cyfiawnder.

Mae Estyn hefyd:

- ▲ yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill; ac
- ▲ yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cyflwyniad	1
Cefndir	1
Prif ganfyddiadau	3
Argymhellion	5
1 Deilliannau	6
Safonau	6
Lles	7
2 Darpariaeth	9
Hyfforddi dysgu	9
Cymorth personol	11
Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd	11
3 Arweinyddiaeth a rheolaeth	13
Arweinyddiaeth a rheolaeth o ran cymorth i ddysgwyr	13
Arfarnu a chynllunio gwelliant	14
Hyfforddiant a chymorth ar gyfer tiwtoriaid ac anogwyr	14
Rheoli adnoddau	15
Atodiad 1 – Sail y dystiolaeth	16
Atodiad 2 – Astudiaethau achos	17
Geirfa	21
Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg	22

Cyflwyniad

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yng nghylch gwaith blynyddol y Gweinidog i Estyn ar gyfer 2013-2014. Mae'r adroddiad yn edrych ar ansawdd, cysondeb a didueddrwydd gwasanaethau cymorth i ddysgwyr a ddarperir gan ysgolion i ddisgyblion cyn, yn ystod ac ar ddiwedd cyfnod allweddol 4. Mae gwasanaethau cymorth i ddysgwyr yn cynnwys hyfforddi, cymorth personol, a gwybodaeth ac arweiniad ynghylch gyrfaoedd. Yr adroddiad hwn yw'r cyntaf o'r ddau. Bydd yr ail adroddiad, a gyhoeddir yn 2015, yn ystyried gwasanaethau cymorth i ddysgwyr a ddarperir gan golegau a darparwyr dysgu yn y gwaith.

Mae'r adroddiad wedi'i seilio ar ymweliadau ag 20 o ysgolion uwchradd, sy'n cynrychioli sampl gynrychioliadol fras o ysgolion uwchradd. Defnyddiwyd tystiolaeth ychwanegol o ddeilliannau arolygu a data ar berfformiad yng nghyfnod allweddol 4, presenoldeb a chyrchfannau (gweler Atodiad 1 am ragor o fanylion).

Mae astudiaethau achos arfer dda yn ymddangos yn Atodiad 2.

Cefndir

Mae gan ysgolion uwchradd, colegau a darparwyr dysgu yn y gwaith ddyletswydd statudol o dan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 i ehangu dewis a darparu gwasanaethau cymorth i ddysgwyr ar gyfer pobl ifanc rhwng 14 ac 19 oed. Gwnaed fframwaith llwybr dysgu¹ yn statudol yn sgil y Mesur. Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys chwe elfen allweddol sydd wedi eu trefnu o dan ddwy agwedd wahanol ar ddarpariaeth i ddysgwyr a chymorth i ddysgwyr.

Dyma yw tair elfen darpariaeth i ddysgwyr:

- Llwybr Dysgu Unigol – i fodloni anghenion pob unigolyn, gan gynnwys elfennau ffurfiol, elfennau nad ydynt yn ffurfiol ac elfennau anffurfiol;
- Dewis Ehangach o gyrsiau a Hyblygrwydd ynddynt – sy'n arwain at gymwysterau o gwricwlwm lleol; a
- Dysgu Ehangach o'r Craidd Dysgu – gan gynnwys medrau, gwybodaeth, agweddau, gwerthoedd a phrofiadau y bydd eu hangen ar bob dysgwr 14-19 oed beth bynnag fo'u llwybr.

Dyma yw tair elfen cymorth i ddysgwyr:

- Mynediad at Anogwr Dysgu;
- Mynediad at Gymorth Personol; a
- Chyngor ac Arweiniad Diduedd ar Yrfaoedd.

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â thair elfen cymorth i ddysgwyr.

¹ Llwybr Dysgu yw profiad dysgu pob dysgwr 14-19 oed unigol. Mae'n cynnwys Craidd Dysgu a dewis o opsiynau y mae'r dysgwr yn dewis ohonynt, gyda chymorth ac arweiniad gwybodus.

Cyhoeddwyd arweiniad² gan Lywodraeth Cymru yn Chwefror 2011 ar ddarparu gwasanaethau cymorth i ddysgwyr. Mae'r arweiniad yn amlinellu'r amcanion ar gyfer gwasanaethau cymorth i ddysgwyr. Diffiniodd yr elfennau ar wahân ar hyfforddi dysgu, cymorth personol a chyngor ac arweiniad ar yrfaeodd hefyd.

Bwriad yr anogwr dysgu yw arwain, hyfforddi a mentora disgyblion er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau gwybodus, nodi nodau a bod yn ddysgwyr annibynnol. Dylai hyfforddi ystyried anghenion yr unigolyn ifanc a dylid teilwra darpariaeth yn unol â'i anghenion.

Diben cymorth personol yw helpu disgyblion i ddatblygu atebion i sefyllfaeodd personol, cymdeithasol, emosiynol a chorfforol sy'n eu rhwystro rhag dysgu ac yn eu hatal rhag cyflawni eu potensial, a goresgyn y sefyllfaeodd hyn.

Dylai gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar yrfaeodd gynnwys cyfuniad o addysg a gwybodaeth am yrfaeodd a ddarperir fel rhan o'r cwricwlwm a chyngor ac arweiniad diduedd ar yrfaeodd a ddarperir mewn ysgolion a sefydliadau a chan Gyrfa Cymru.

Ym Mai 2012, cynhaliwyd Ymchwiliad Cyhoeddus i roi'r Mesur Dysgu a Sgiliau³ ar waith. O ganlyniad, argymhellodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad o wasanaethau cymorth i ddysgwyr a gofal bugeiliol, gan gynnwys arfarniad o gysondeb darpariaeth anogwyr dysgu ac eglurhad o rolau'r rhai sy'n darparu gwasanaethau cymorth dysgu. Gofynnodd y Gweinidog i Estyn gynnal yr adolygiad thematig hwn o wasanaethau cymorth i ddysgwyr.

² [Mesur Dysgu a Sgiliau \(Cymru\) 2009: Canllawiau ar y Gwasanaethau Cymorth Dysgwyr a'r Ddogfen Llwybr Dysgu](#)

³ [Ymchwiliad i Weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau \(Cymru\) 2009, cyhoeddwyd Mai 2012](#)

Prif ganfyddiadau

Deilliannau

- 1 Mae deilliannau disgyblion wedi gwella yn gyffredinol ers cyflwyno Llwybrau Dysgu 14-19, sydd wedi arwain at ddewisiadau ehangach o ran pynciau a mwy o gymorth dysgu yng nghyfnod allweddol 4.
- 2 Y disgyblion sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf rhag dysgu sydd wedi elwa fwyaf ar ddatblygiadau polisi Llwybrau Dysgu 14-19. Maent yn ymddiddori yn fwy ac mae eu cyfraddau presenoldeb wedi gwella o ganlyniad. Mae'r niferoedd sy'n parhau mewn addysg a hyfforddiant ar ôl 16 oed wedi cynyddu ac mae cyfraddau presenoldeb wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf, yn enwedig mewn ysgolion lle mae lefelau uwch o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae nifer y disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 sydd wedi eu heithrio o ysgolion uwchradd wedi gostwng yn sylweddol er 2009.
- 3 Er hynny, nid yw tua hanner y disgyblion yn ennill cymhwyster TGAU da (gradd A*-C) neu gyfwerth o hyd mewn Saesneg / Cymraeg mamiaith neu mewn mathemateg. Mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella yn arafach ar drothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg nag ar drothwy lefel 2. Nid yw cyfran y bobl ifanc nad ydynt yn ymgymryd ag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yn 19 oed wedi gostwng yn ddiweddar.

Darpariaeth

- 4 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae'r rhan fwyaf o hyfforddi dysgu a ddarperir gan anogwyr dysgu dynodedig ar gyfer disgyblion targedig neu gan staff cymorth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, yn effeithiol ar y cyfan ac mae'n helpu disgyblion i wella eu presenoldeb, eu hymddygiad a'u perfformiad. Mae effaith hyfforddi dysgu ar gyfer disgyblion eraill yn fwy amrywiol.
- 5 Darpariaeth cymorth personol yw'r agwedd gryfaf ar gymorth i ddysgwyr. Mae gan lawer o ysgolion yr arolwg systemau effeithiol i gyflwyno cymorth personol ac mae staff yn gweithio'n dda gydag asiantaethau eraill i helpu disgyblion i oresgyn rhwystrau yn sgil amgylchiadau cartref neu yn sgil problemau corfforol ac iechyd meddwl. Mae gan lawer o ysgolion systemau olrhain i fonitro cynnydd disgyblion. Mae mwyafrif ohonynt yn defnyddio systemau olrhain yn dda i nodi'r rhai y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Nid yw lleiafrif o ysgolion nad oes ganddynt systemau olrhain effeithiol yn targedu gwasanaethau cymorth i ddysgwyr ac ymyriadau yn ddigon da.
- 6 Darpariaeth cyngor ac arweiniad ar yrfaeodd yw'r nodwedd wannaf ar gymorth i ddysgwyr. Nid yw cyngor ac arweiniad ar yrfaeodd yn dechrau'n ddigon cynnar nac yn rhoi digon o ystyriaeth i anghenion a photensial disgyblion unigol wrth eu helpu i gynllunio eu llwybrau dysgu yn y dyfodol. Lleiafrif o ysgolion yn unig sy'n cynnig y cyfle i bob disgybl drafod eu dyheadau a'u cynlluniau gyrfa wrth iddynt ddewis eu cyrsiau cyfnod allweddol 4 ym Mlwyddyn 9 neu wrth gynllunio eu camau nesaf ym Mlwyddyn 11.

- 7 Mewn mwyafrif o ysgolion, nid yw'r wybodaeth am gyrsiau, cyfleoedd gyrfa a llwybrau dilyniant a roddir i ddisgyblion yn gyfoes. O ganlyniad i hyn a thueddiad tuag at gadw disgyblion yn y chweched dosbarth lle maent yn bodoli, ni roddir gwybodaeth gywir na diduedd i ddisgyblion bob amser wrth iddynt ddewis eu hopsiynau. Darperir y rhan fwyaf o gyngor ac arweiniad ar yrfaeodd i ddisgyblion a rhieni mewn digwyddiadau opsiynau, sy'n darparu gwybodaeth generig, ond nid ydynt yn cynnwys sgysiau penodol am unigolion.
- 8 Nid yw ysgolion wedi rhoi ystyriaeth ddigon gofalus i'r modd y dylent ddisodli'r gwasanaethau a ddarparwyd gan Gyrfa Cymru yn y gorffennol, gan gynnwys defnyddio Gyrfa Cymru Ar-lein a ffynonellau gwybodaeth eraill am addysg bellach ac addysg uwch, hyfforddiant, prentisiaethau a gyrfaeodd.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

- 9 Lleiafrif o ysgolion yn unig sy'n defnyddio dull strategol o gydlynu gwasanaethau cymorth i ddysgwyr. Mae'r ysgolion hyn yn targedu hyfforddi dysgu a chymorth personol yn dda ar gyfer y dysgwyr sydd eu hangen fwyaf a gallant ddangos effaith mewn deilliannau. Maent yn sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi'n dda, ac yn defnyddio partneriaid allanol a threfniadau cydweithredol i ddarparu hyfforddi dysgu a chymorth personol llwyddiannus.
- 10 Mewn mwyafrif o ysgolion, ni chaiff y gwahanol elfennau o gymorth i ddysgwyr eu cydlynu'n dda ac nid ydynt yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol. Yn benodol, ni chaiff cyngor ac arweiniad ar yrfaeodd eu cydlynu'n ddigon da. Ymdrinnir â'r cyngor ar ddewisiadau ac opsiynau pynciau i'w hastudio ym Mlwyddyn 7 a Blwyddyn 11 fel digwyddiadau ar wahân a dim ond mewn ambell ysgol y ceir cynllun cyffredinol.
- 11 Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion ystod briodol o staff yn darparu gwasanaethau cymorth i ddysgwyr. Nid oes gan leiafrif o ysgolion gynlluniau wrth gefn i reoli gostyngiad pellach yn y cymorth allanol neu i'w galluogi i gadw'r staff ychwanegol sy'n darparu gwasanaethau cymorth i ddysgwyr.
- 12 Mae mwyafrif yr ysgolion yn arfarnu prif ddata perfformiad ac yn gwneud defnydd mwy cyfyngedig o ddata ar y cynnydd a wna unigolion a grwpiau o ddysgwyr sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif yr ysgolion yn defnyddio data i arfarnu effaith strategaethau cymorth dysgu yn ddigon da i wybod sut i wella'r ddarpariaeth honno.

Argymhellion

Dylai ysgolion:

- A1 ganolbwyntio gwasanaethau cymorth i ddysgwyr ar wella cyrhaeddiad disgyblion o ran graddau uwch mewn TGAU Saesneg neu Gymraeg mamiaith ac mewn mathemateg;
- A2 defnyddio agwedd fwy strategol at wasanaethau cymorth i ddysgwyr a chydlynu cyflwyno hyfforddi dysgu, cymorth personol, a chyngor ac arweiniad ar yrfaedd;
- A3 gwella cwmpas ac ansawdd cyngor ac arweiniad ar yrfaedd;
- A4 gwneud yn siŵr bod pob un o'r disgyblion yn cael trafodaethau rheolaidd gyda'r staff cymorth mwyaf priodol am eu cynnydd, eu dyheadau a'u llwybr dysgu, yn enwedig ar adegau allweddol ym Mlwyddyn 9 a Blwyddyn 11;
- A5 darparu hyfforddiant a gwybodaeth reolaidd a chyfoes i bob un o'r staff sydd ynghlwm wrth roi cyngor ac arweiniad;
- A6 arfarnu effaith gwasanaethau cymorth i ddysgwyr ar ddeilliannau; a
- A7 chynllunio ar gyfer gostyngiadau posibl mewn cyllid ar gyfer cymorth allanol er mwyn cynnal lefelau presennol cymorth i ddysgwyr.

Dylai awdurdodau lleol:

- A8 arwain a chydlynu partneriaethau i gefnogi ysgolion â gwasanaethau cymorth allanol.

Dylai Llywodraeth Cymru:

- A9 ddiweddarau ei harweiniad i ysgolion ar gyngor ac arweiniad ar yrfaedd i adlewyrchu'r newidiadau diweddar i rôl Gyrfa Cymru.

1 Deilliannau

Safonau


- 13 Mae cyfran y bobl ifanc sy'n aros mewn addysg a hyfforddiant ar ôl Blwyddyn 11 wedi gwella yn gyffredinol ers cyflwyno Llwybrau Dysgu 14-19, sydd wedi arwain at ddewisiadau pynciau ehangach a'r strwythurau cymorth y mae ysgolion wedi eu rhoi ar waith i leihau rhwystrau rhag dysgu. Mae'r gyfran sy'n aros mewn addysg neu hyfforddiant amser llawn ar ôl Blwyddyn 11 wedi cynyddu o ryw 82% yn 2004 i ryw 85% yn 2012⁴. Fodd bynnag, mae'r gyfran sy'n mynd yn syth i gyflogaeth wedi gostwng ac mae'r gyfran nad ydynt yn ymgymryd ag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yn 16-18 oed wedi aros rhwng 10% a 12%⁵.
- 14 Mae safonau mewn ystod o ddangosyddion perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 wedi gwella. Bu'r gwelliant mwyaf arwyddocaol yng nghyfrannau disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 2. Cynyddodd y gyfran sy'n cyflawni'r dangosydd hwn o ryw 17 pwynt canran rhwng 2009 a 2013. Mae'r effaith ar gyrhaeddiad yn nhrothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg ac ar drothwy lefel 1 wedi bod yn llai amlwg. Mae'r gyfran sy'n cyflawni trothwy lefel 2 wedi gwella o ryw bum pwynt canran yn ystod y cyfnod hwn.
- 15 Nid yw gormod o ddisgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 2 yn cyflawni lefel 2 gan gynnwys Saesneg, Cymraeg mamiaith a mathemateg. Yn 2013, cyflawnodd 78% o ddisgyblion drothwy lefel 2, ond 53% o ddisgyblion yn unig a gyflawnodd drothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg.
- 16 Mae'r gyfran sy'n ennill cymhwyster lefel 2 naill ai mewn Saesneg neu Gymraeg mamiaith wedi aros yn gyson, sef tua 64% dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r gyfran sy'n ennill cymhwyster lefel 2 mewn mathemateg wedi gwella o 57% yn 2011 i 60% yn 2013. Fodd bynnag, mae gormod o ddisgyblion nad ydynt yn ennill cymwysterau lefel 2 mewn un o'r pynciau craidd hyn, neu'r ddau ohonynt. Nid yw disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni cystal â'u cyfoedion yn y pynciau craidd hyn. Os nad oes gan ddisgyblion gymwysterau lefel 2 mewn Saesneg, Cymraeg mamiaith a mathemateg, mae'n anos iddynt fynd ymlaen i gymwysterau lefel uwch neu gael swydd.
- 17 Mae cymwysterau galwedigaethol yn cynnwys cyfran gynyddol o'r cymwysterau a enillir. Mae nifer gynyddol o ddisgyblion yn ennill cymwysterau galwedigaethol lefel 2 a lefel 3 yn hytrach na chymwysterau lefel mynediad a lefel 1.
- 18 Mae effaith y dewis ehangach wedi bod yn fwyaf arwyddocaol ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Maent yn ennill mwy o gymwysterau ar lefelau uwch. Rhwng 2006 a 2009, ehangodd y bwch mewn cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys i'w cael, ond mae wedi bod yn lleihau ers hynny ar gyfer trothwy lefel 1 a lefel 2. Nid yw'r bwch wedi lleihau yn gyffredinol ar gyfer trothwy lefel 2 sy'n cynnwys Saesneg, Cymraeg mamiaith a mathemateg.

⁴ <http://cyrchfannau.gyrfacymru.com/year11.html>

⁵ <http://wales.gov.uk/docs/statistics/2014/140116-young-people-not-education-employment-training-year-30-september-2013-en.pdf>

- 19 Dengys Ffigur 1 fod y bwlch mewn perfformiad yn nhrothwy lefel 1 rhwng 2009 a 2013 wedi lleihau tua saith pwynt canran a lleihaodd y bwlch mewn perfformiad yn lefel 2 o ryw naw pwynt canran. Fodd bynnag, mae'r bwlch mewn perfformiad yn nhrothwy lefel 2 sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg wedi cynyddu tuag un pwynt canran er 2009.

Ffigur 1: Cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys / nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) mewn detholiad o ddangosyddion cyfnod allweddol 4



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru⁶

Lles

- 20 At ei gilydd, mae cyfraddau presenoldeb dysgwyr rhwng 11 ac 16 oed wedi gwella ychydig mewn ysgolion uwchradd dros y tair blynedd diwethaf. Mae presenoldeb yn yr ysgolion lle mae'r cyfrannau uchaf o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella yn fwy na phresenoldeb mewn ysgolion lle mae'r cyfrannau isaf o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.
- 21 Dengys Ffigur 2 fod presenoldeb mewn ysgolion sydd â'r lefelau uchaf (dros 30%) o gymhwyster i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella 2.3 pwynt canran rhwng 2011 a 2013, tra bod presenoldeb yn yr ysgolion sydd â'r lefelau isaf (10% neu lai) o gymhwyster i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella ychydig dros un pwynt canran. Mae'r bwlch mewn presenoldeb rhwng ysgolion sydd â'r lefelau uchaf (dros 30%) o brydau ysgol am ddim a chyfartaledd Cymru wedi gostwng o 3.2 pwynt canran yn 2011 i 2.1 pwynt canran yn 2013; yn yr un cyfnod, mae'r bwlch rhwng presenoldeb yn yr ysgolion sydd â'r lefelau isaf (10% neu lai) o brydau ysgol am ddim a chyfartaledd Cymru wedi aros tua'r un fath.

⁶ <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/academic-achievement-free-school-meals/?skip=1&lang=cy>

Ffigur 2: Presenoldeb gan ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion uwchradd a gynhelir yng Nghymru, 2011-2013

Cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim	Presenoldeb fesul canran			Cynnydd fesul canran 2011-2013
	2011	2012	2013	
10% neu lai	92.9	93.7	94	1.1
10%-15%	91.8	92.8	93.2	1.4
15%-25%	91.4	92	92.6	1.2
25%-30%	90.6	91.1	91.6	1.0
Over 30%	88.2	89.3	90.5	2.3
Cymru Gyfan	91.4	92.1	92.6	1.2

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru ⁷

- 22 Nid yw'r data hwn yn dangos y newid ym mhatrymau presenoldeb disgyblion cyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr arolwg, mae presenoldeb disgyblion cyfnod allweddol 4 wedi gwella ac mae'n awgrymu y gallai'r ddarpariaeth o ran dewis ehangach a gwasanaethau cymorth i ddysgwyr fod wedi cyfrannu at gyfraddau presenoldeb gwell ar gyfer y disgyblion hyn.
- 23 Mae nifer y disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 sydd wedi cael eu gwahardd o'r ysgol naill ai'n barhaol neu am gyfnod penodol, wedi lleihau er 2007⁸. Yn 2007, cafodd 130 o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 eu gwahardd yn barhaol o'u hysgol, ac roedd disgyblion cyfnod allweddol 4 yn cyfrif am ychydig dros hanner y gwaharddiadau parhaol o ysgolion. Erbyn 2013, roedd y nifer hon wedi gostwng i 49 ac roedd ychydig o dan hanner o'r holl waharddiadau parhaol.
- 24 Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion a gafodd eu cyfweld yn ystod ymweliadau ysgol yn credu bod yr ysgol yn eu helpu i fod yn barod i fynd ymlaen i'w hysgol nesaf, coleg neu ddechrau eu bywyd gwaith. Dywedodd y disgyblion a gafodd eu cyfweld sy'n cael cymorth hyfforddi dysgu gan staff sy'n cael eu cyflogi a'u hyfforddi'n benodol ar gyfer y rôl hon, fod y cymorth hwn wedi eu helpu i wella eu perfformiad. Disgyblion a oedd mewn perygl o beidio â mynd ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth oedd y rhain gan amlaf. Mae disgyblion sy'n cael cymorth personol i ddelio â phroblemau personol a achosir gan amgylchiadau cartref, ac ar gyfer problemau emosiynol a chymdeithasol, hefyd yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'i effaith ar eu presenoldeb a'u hagweddau tuag at ddysgu.

⁷ <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/absenteeism-secondary-schools/?skip=1&lang=cy>

⁸ <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/exclusions-schools/?jsessionid=2455B46843745029BFACAC4ADA5D1C80?skip=1&lang=cy>

2 Darpariaeth

Hyfforddi dysgu

- 25 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae'r hyfforddi dysgu a ddarperir gan anogwyr dysgu dynodedig ar gyfer disgyblion targedig neu gan staff cymorth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn effeithiol, ac mae'n helpu disgyblion i wella eu presenoldeb, eu hymddygiad a'u perfformiad.
- 26 Mae hyfforddi dysgu ar gyfer disgyblion eraill yn fwy amrywiol o ran nifer ac effaith. Mewn llawer o ysgolion, mae'r arweiniad a'r hyfforddi cyffredinol a ddarperir trwy addysg bersonol a chymdeithasol, mewn gwersi pwnc a thrwy waith paratoi ar gyfer arholiadau, yn briodol ac yn bodloni anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae llawer o ysgolion yn darparu hyfforddi un i un hefyd, sy'n aml yn cael ei alw'n fentora. Mewn rhai ysgolion yn unig y mae'r dull hwn o hyfforddi dysgu yn hynod effeithiol.
- 27 Mae bron pob un o'r ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt yn defnyddio cyfuniad o staff i gyflwyno hyfforddi dysgu. Mae llawer o ysgolion yn neilltuo eu hanogwyr dysgu dynodedig (sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant ffurfiol i anogwyr dysgu a ddarperir gan Lywodraeth Cymru) yn briodol i'r disgyblion sydd fwyaf mewn perygl. Mae staff cymorth dysgu yn hyfforddi disgyblion ag anghenion addysgol arbennig hefyd. Caiff grwpiau eraill o ddisgyblion eu hyfforddi gan arweinwyr bugeiliol, tiwtoriaid dosbarth a'u hathrawon pwnc.
- 28 Bron ym mhob un o'r ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt, mae anogwyr dysgu dynodedig yn cynorthwyo grwpiau penodol. Mewn tua hanner yr ysgolion, mae'r grŵp targedig yn cynnwys disgyblion sydd mewn perygl o fethu cyflawni trothwy lefel 2 neu drothwy lefel 1. Mewn rhai ysgolion, mae'r ffocws ar ddisgyblion sy'n cael gofal neu sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, tra bod rhai ysgolion eraill yn targedu disgyblion sy'n cael trafferth â Saesneg, Cymraeg mamiaith neu fathemateg. Fodd bynnag, nid yw ychydig iawn o ysgolion eraill yn defnyddio dull clir o dargedu grwpiau neu unigolion penodol.
- 29 Mae anogwyr dysgu dynodedig yn effeithiol, wedi eu hyfforddi'n dda ac yn cael eu defnyddio'n briodol yn y rhan fwyaf o ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt. Caiff anogwyr dysgu dynodedig gyfarfodydd rheolaidd gyda'u grŵp targedig, maent yn asesu eu hanghenion unigol a naill ai'n darparu'r cymorth eu hunain neu'n trefnu cymorth priodol arall. Maent yn datblygu perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda'r disgyblion ac yn arfarnu effaith eu cymorth yn dda. Mewn ychydig iawn o ysgolion, nid yw'r defnydd o anogwyr dysgu dynodedig wedi'i gynllunio'n dda, mae'r meini prawf ar gyfer nodi grwpiau targedig yn aneglur ac ni chaiff cynnydd ei olrhain. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i ysgolion ddangos effaith gwaith yr anogwyr dysgu.
- 30 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae staff cymorth dysgu yn cyflawni'r swyddogaeth hyfforddi dysgu yn effeithiol ar gyfer y disgyblion hynny ag anghenion addysgol arbennig. Mae'r staff hyn yn gweithio'n dda gyda disgyblion mewn gwersi, maent yn cyfarfod â'r disgyblion i'w helpu i drefnu eu gwaith ac yn eu cynorthwyo wrth iddynt baratoi ar gyfer asesiadau. Mewn llawer o ysgolion, mae staff cymorth dysgu hefyd yn rhoi cymorth ar gyfer trosglwyddo i'r coleg neu i'r chweched dosbarth. Maent yn cynorthwyo â cheisiadau colegau ac yn sicrhau bod y trefniadau am gymorth ychwanegol yn eu lle ar gyfer y cyfnod dysgu nesaf.

- 31 Yn y rhan fwyaf o ysgolion yr arolwg, mae ystod o staff eraill yn cyfrannu at y swyddogaeth anogwr dysgu ar gyfer y disgyblion hynny nad ydynt yn cael eu cynorthwyo gan anogwyr dysgu dynodedig neu ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig sy'n cael eu hyfforddi gan staff cymorth dysgu. Mae gan lawer o ysgolion ystod o drefniadau buddiol ar gyfer hyfforddi dysgu gan arweinwyr pwnc a chan diwtoriaid. Maent yn cynnal gwersi ychwanegol a sesiynau adolygu, yn aml ar ôl yr ysgol ac mewn gwyliau ysgol. Yn y mwyafrif o ysgolion, mae tiwtoriaid dosbarth yn cyfarfod â disgyblion i adolygu eu cynnydd a'u helpu i osod targedau a nodau. Darperir rhagor o hyfforddi dysgu trwy raglen addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol.
- 32 Mae llawer o ysgolion yn darparu hyfforddiant un i un ychwanegol hefyd, y cyfeirir ato yn aml fel mentora, i'r disgyblion nad ydynt yn cael eu cynorthwyo gan yr anogwyr dysgu dynodedig neu'r staff cymorth dysgu. Caiff yr agwedd fentora hon ar hyfforddi ei darparu gan amlaf gan athrawon, gan gynnwys uwch staff. Yn y mwyafrif o ysgolion, mae mentora ar gael i ddisgyblion targedig. Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae gan bob disgybl fentor dynodedig. Mae effeithiolrwydd y mentora hwn yn hynod amrywiol. Nid yw manteision rhaglenni mentora yn dibynnu ar b'un a ydynt yn rhai targedig neu'n rhai cyffredinol. Y ffactorau pwysicaf yw amseru ac arbenigedd y mentor, fel yr esbonnir isod.
- 33 Mae ysgolion yn defnyddio ystod o feini prawf i benderfynu pa ddisgyblion ddylai gael mentora ychwanegol. Mae llawer o ysgolion yn dewis disgyblion sydd mewn perygl o danberfformio mewn Saesneg, Cymraeg mamiaith a mathemateg. Mae'r mwyafrif ohonynt yn dewis disgyblion y rhagwelir eu bod ar y ffin rhwng gradd C a gradd D mewn TGAU. Mae ychydig iawn o ysgolion yn targedu'r ddarpariaeth ychwanegol hon ar fynd i'r afael ag anghenion a dyheadau disgyblion unigol, fel y rhai sydd mewn perygl o beidio â chyflawni'r graddau sy'n ofynnol ar gyfer eu cam nesaf arfaethedig.
- 34 Yn yr ychydig iawn o ysgolion lle mae mentora ychwanegol yn hynod effeithiol yn gyson, mae nifer o nodweddion cyffredin. Mae'r rhain yn cynnwys:
- dull strategol clir o fentora yn seiliedig ar ystyriaeth ofalus o bwy ddylai gael mentor a pham;
 - meini prawf llwyddiant clir;
 - olrhain rheolaidd a nodi tanberfformio yn gynnar;
 - paratoi a hyfforddi mentoriaid yn ofalus;
 - darparu gwybodaeth am y mentora i ddisgyblion a rhieni ar ddechrau'r cyfnod mentora, a deialog reolaidd yn ystod y cyfnod mentora; ac
 - arfarniad gonest o effaith y mentora.
- 35 Pan mae mentora yn aneffeithiol, p'un ai ar gyfer rhai disgyblion targedig neu bob un ohonynt, mae nifer o ddiffygion pwysig. Mae'r rhain yn cynnwys:
- cynlluniau mentora sy'n dechrau'n rhy hwyr i wneud gwahaniaeth, er enghraifft dechrau ar ôl hanner tymor yn hydref Blwyddyn 11;
 - arweiniad a hyfforddiant annigonol i staff, sy'n arwain at ddulliau mentora anghyson mewn ysgol;
 - amcanion a threfniadau aneglur ar gyfer y mentora; a
 - dim arfarniad o effaith y mentora.

Cymorth personol

- 36 Darpariaeth cymorth personol yw'r agwedd gryfaf ar gymorth i ddysgwyr. Mae gan lawer o ysgolion yr arolwg systemau cymorth personol effeithiol sy'n cael eu rhoi ar waith gan staff cymorth ymroddgar sy'n gweithio'n dda gydag asiantaethau eraill i helpu disgyblion i oresgyn y rhwystrau a achosir gan amgylchiadau cartref, neu gan broblemau corfforol ac iechyd meddwl. Mae'r ysgolion hyn yn cynorthwyo disgyblion sydd mewn perygl o gael eu bwlio neu o gael niwed hefyd. Mae gan lawer o'r ysgolion bartneriaethau effeithiol gydag asiantaethau allanol sy'n darparu therapïau a rhaglenni cymorth cymunedol. Mae'r ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt yn dibynnu'n sylweddol ar arbenigedd asiantaethau o'r fath, er enghraifft y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, y rhai sy'n cefnogi cymunedau teithwyr, a gwasanaethau cymorth ar gyfer lleiafrifoedd ethnig.
- 37 Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion systemau olrhain defnyddiol sy'n eu galluogi i fonitro cynnydd academaidd disgyblion. Mae lleiafrif o ysgolion yn casglu data ar agweddau ar les hefyd, fel presenoldeb, ymddygiad ac agweddau disgyblion. Yn yr ysgolion hyn, defnyddir y wybodaeth hon i nodi arwyddion o ddisgyblion sy'n cael trafferth â phroblemau personol. Ceir llinellau cyfathrebu clir i godi'r materion hyn a'u trafod, ac i drefnu gweithgareddau dilynol sy'n mynd i'r afael â'r anghenion a nodwyd. Yn yr enghreifftiau mwyaf effeithiol prin, caiff y gweithgareddau cymorth personol eu holrhain a'u harfarnu'n helaeth. Mae hyn yn galluogi ysgolion i arfarnu effaith eu strategaeth cymorth personol yn llawn.
- 38 Mewn ychydig iawn o ysgolion, caiff darpariaeth cymorth personol ei chydlynu mewn modd aneglur. Yn yr ysgolion hyn, er y gallai staff sy'n gyfrifol am grwpiau blwyddyn, dosbarthiadau tiwtor ac addysgu pwnc sylwi bod gan ddisgybl broblemau personol, nid ydynt yn gwybod beth yw'r weithdrefn ar gyfer cyfleu'r pryderon hyn. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn cael cymorth amserol na phriodol. Ni threfnir bod gwybodaeth am y cymorth a ddarperir ar gael i aelodau eraill o staff sy'n addysgu'r disgybl. Diffyg arall yw'r ffaith nad oes gan yr ysgolion hyn unrhyw ffordd o arfarnu effaith gweithgareddau cymorth na dangos bod y cymorth personol a gynigir wedi gwneud gwahaniaeth.

Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar yrfaeodd

- 39 Mae bron pob un o ysgolion yr arolwg yn darparu ystod ddefnyddiol o weithgareddau cyngor ac arweiniad cyffredinol yn ymwneud â gyrfaeodd ar gyfer disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys addysg yrfaeodd fel rhan o'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol a chyfleoedd profiad gwaith. Mae llawer o ysgolion yn cynnal digwyddiadau 'gyrfaeodd a byd gwaith' buddiol. Mae bron pob un ohonynt yn cynnal digwyddiadau opsiynau ym Mlwyddyn 9 a Blwyddyn 11 ac mae llawer ohonynt yn cynnal ffeiriau gyrfaeodd. Mae'r rhai sydd â chweched dosbarth yn cynnal digwyddiadau yn ymwneud ag addysg uwch hefyd. Fodd bynnag, cyngor ac arweiniad ar yrfaeodd yw'r agwedd ar wasanaethau cymorth i ddysgwyr sy'n cynnwys y rhan fwyaf o ddiffygion.
- 40 Ni chaiff cyngor ac arweiniad ar yrfaeodd eu cydlynu'n ddigon da mewn mwyafrif o ysgolion. Ymdrinnir â'r cyngor ar opsiynau a dewisiadau ym Mlwyddyn 9 a Blwyddyn 11 (yn 14 ac 16 oed) fel digwyddiadau ar wahân. Mewn rhai ysgolion yn unig yr ymdrinnir â phob cyfnod fel rhan o gynllun cyffredinol sy'n seiliedig ar botensial,

cyflawniad ac uchelgeisiau disgyblion unigol. Yn ychwanegol, mae'r rhan fwyaf o'r cyngor a'r arweiniad ar gyfer disgyblion a rhieni a ddarperir mewn digwyddiadau opsiynau yn generig ac nid ydynt yn cynnwys sgwrsiau penodol gydag unigolion.

- 41 Lleiafrif o ysgolion yn unig sy'n cynnig cyfle i bob disgybl drafod eu dyheadau a'u cynlluniau pan fyddant yn dewis eu cyrsiau ym Mlwyddyn 9 neu'n cynllunio eu camau nesaf yn 16 oed. Roedd bron pob un o'r disgyblion y cyfwelwyd â nhw fel rhan o'r arolwg hwn yn gadarnhaol ynglŷn â'r cyngor a gawsant wrth ddewis eu hopsiynau ar gyfer cyfnod allweddol 4 ac yn y sector ôl-16. Fodd bynnag, nid oedd gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth glir o ganlyniadau eu dewisiadau a'u canlyniadau arholiadau ar gyfer eu dilyniant i'r cyfnod nesaf o addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Er enghraifft, nid oedd disgyblion a oedd yn dymuno astudio'r gwyddorau yn y brifysgol yn ymwybodol o effaith gyfyngol eu dewisiadau yng nghyfnod allweddol 4 ar ba gyrsiau'r gwyddorau y gallent wneud cais amdanynt yn y brifysgol. Nid oedd gan lawer o ddisgyblion wybodaeth a dealltwriaeth ddigon cyfoes o ofynion mynediad y cyrsiau a'r gyrfaoedd yr oeddent yn anelu atynt.
- 42 Mewn mwyafrif o ysgolion, nid yw'r wybodaeth a ddarperir yn gyson gywir na phriodol. Nid oes gan y rhan fwyaf o staff wybodaeth a dealltwriaeth ddigonol o'r ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael. Er enghraifft, nid yw staff yn gwybod rhyw lawer am yr hyn sydd ar gael ar wefan Gyrfa Cymru Ar-lein. Ychydig iawn o ysgolion yr arolwg yn unig sy'n defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur. O ganlyniad, ni roddir gwybodaeth lawn, gywir na diduedd i ddisgyblion bob amser.
- 43 Nid yw rhai ysgolion yn gwybod digon am y newidiadau diweddar yn y gwasanaeth a gynigir gan Gyrfa Cymru. Nid yw Gyrfa Cymru yn cefnogi sefydlu lleoliadau profiad gwaith⁹ mwyach ac fe gaiff cyfweliadau gyrfaoedd un i un eu targedu'n bennaf at ddisgyblion a allai adael addysg neu hyfforddiant yn 16 oed erbyn hyn (pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, o bosibl). Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn deall goblygiadau'r newidiadau ar gyfer trefnu profiad gwaith ac mae llawer ohonynt eisoes yn cymryd cyfrifoldeb am yr agwedd hon. Fodd bynnag, maent yn llai clir ynglŷn â beth y mae'r newidiadau hyn yn ei olygu i gyfweliadau gyrfaoedd disgyblion. Tybiai ychydig iawn o ysgolion y bydd Gyrfa Cymru yn parhau i gynnig cyfweliadau i bob disgybl. O ganlyniad, nid ydynt wedi ystyried pa newidiadau y mae angen eu gwneud i'w rhaglenni gyrfaoedd a ch yngor presennol.
- 44 Er bod cwricwla ardal leol a threfniadau cydweithredol wedi cael eu datblygu yn y sector ôl-16, mae ysgolion sydd â chweched dosbarth yn parhau i ganolbwyntio ar gadw disgyblion a oedd yn yr ysgol yng nghyfnod allweddol 4. Mewn lleiafrif o'r ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt, caiff disgyblion eu hannog yn aml i fynd yn ôl i'r ysgol ar gyfer y chweched dosbarth, hyd yn oed pan fyddai cwrs priodol pe baent yn mynd ymlaen i gael hyfforddiant neu i goleg addysg bellach.

⁹ Mae Gyrfa Cymru yn cynnig ac yn cynnal y gronfa ddata profiad gwaith genedlaethol a rhestr o leoliadau sydd ar gael ar gyfer profiad gwaith ym mlynnyddoedd 10,11 neu 12. Gall pobl ifanc fewngofnodi a darganfod pa leoedd sydd ar gael yn eu hardal leol a gallant wneud eu dewisiadau ar-lein. Mae'r gronfa ddata ar gael i fyfyrwyr ym mlynnyddoedd 10,11 neu 12 yn unig. Nid oes gofyniad llwyr i ysgol ddefnyddio gwefan Gyrfa Cymru a'r gronfa ddata profiad gwaith. Os nad yw'r ysgol yn gwneud hyn, mae'n gyfrifol am holl elfennau'r lleoliad profiad gwaith, gan gynnwys gofynion iechyd a diogelwch ar gyfer lleoliad yr unigolyn ifanc.

- 45 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn dymuno codi dyheadau disgyblion ac mae gan lawer ohonynt ffocws cryf ar ddilyniant i addysg uwch. Fodd bynnag, nid yw ysgolion yn gwneud digon i helpu disgyblion i gynllunio eu haddysg a'u hyfforddiant yn y tymor hir o gyfnod allweddol 3 i fyd gwaith. Mae pob cyfnod yn tueddu i gael ei drin ar wahân heb ystyried y dilyniant i'r cyfnod nesaf. O ganlyniad, caiff rhai disgyblion yn y chweched dosbarth opsiynau cyfyngedig oherwydd dewisiadau a wnaethant yn gynharach. Hefyd, nid oedd rhai disgyblion a oedd wedi mynd yn ôl i'r chweched dosbarth ac wedi datgan eu bwriad i fynd i brifysgol wedi ennill y cymwysterau yng nghyfnod allweddol 4 a fyddai'n eu galluogi i wneud hynny.
- 46 Ychydig iawn o ysgolion yn unig sy'n defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur yn bwrpasol i ddarparu cyngor perthnasol a diwygio eu cwricwlwm. Mae cyfran debyg yn datblygu partneriaethau buddiol gyda busnesau a chyflogwyr lleol i ddarparu cyngor ychwanegol a chyfleoedd yn y gwaith. Ychydig iawn o ysgolion yn unig sy'n ddigon ymatebol ac arloesol i gynnig cyrsiau sy'n darparu llwybrau dilyniant uniongyrchol at gyflogaeth.

3 Arweinyddiaeth a rheolaeth

Arweinyddiaeth a rheolaeth o ran cymorth i ddysgwyr

- 47 Mewn mwyafrif o ysgolion, y prif wendidau mewn arweinyddiaeth a rheolaeth o ran cymorth i ddysgwyr yw'r ffaith nad yw gwahanol elfennau o gymorth i ddysgwyr yn cael eu cydlynu'n dda.
- 48 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae gwahanol aelodau o staff yn gyfrifol am reoli tair elfen gwasanaethau cymorth i ddysgwyr. Yn gyffredinol, caiff hyfforddi dysgu ei oruchwylio gan reolwr canol sy'n gyfrifol am ddisgyblion mewn cyfnod allweddol. Yn gyffredinol, caiff cymorth personol ei drefnu gan gydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol. Fel arfer, caiff y trefniadau ar gyfer cyngor ac arweiniad ar yrfaeodd eu goruchwylio gan y rheolwr canol sy'n gyfrifol am ddisgyblion mewn cyfnod allweddol neu, yn aml, mae gan ysgolion athro gyrfaoedd dynodedig. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae'r arweinwyr sy'n gyfrifol am wahanol elfennau o gymorth i ddysgwyr yn effeithiol wrth reoli eu maes cyfrifoldeb eu hunain.
- 49 Mewn lleiafrif o ysgolion, mae uwch arweinwyr yn cydlynu'r gwaith hwn yn dda. Mae'r rhai sy'n gyfrifol am wahanol elfennau o gymorth i ddysgwyr yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod disgyblion unigol, y cymorth sydd ei angen a'r cynnydd a wnaed. Fodd bynnag, mewn mwyafrif o ysgolion, nid yw'r gwahanol agweddau ar wasanaethau cymorth i ddysgwyr yn gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd ddigon cydlynus. O ganlyniad, nid oes gan ysgolion ddarlun clir o ba gymorth targedig ychwanegol sydd ei angen na ble y mae ei angen ac mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i arfarnu effaith gwasanaethau cymorth i ddysgwyr. Diffyg arall yw'r ffaith nad yw arweinwyr yn yr ysgolion hyn mewn sefyllfa i allu sicrhau bod pob aelod o staff sy'n darparu cymorth i ddysgwyr, ac eithrio anogwyr dysgu dynodedig, yn meddu ar y medrau angenrheidiol.

Arfarnu a chynllunio gwelliant

- 50 Ychydig o ysgolion yn unig sy'n arfarnu agweddau ar eu gwasanaethau cymorth i ddysgwyr yn ddigon gofalus a thrylwyr. Mae ychydig iawn o ysgolion yn gwneud defnydd rhagorol o ddata ar bresenoldeb, perfformiad a data arolwg neu ddata ar agweddau i asesu effaith eu darpariaeth. Mae'r ysgolion hyn yn nodi meini prawf llwyddiant a dyddiadau dechrau a gorffen ar gyfer y cymorth a ddarperir, yn monitro'r gweithredu ac yn arfarnu deilliannau yn ofalus. Gwnânt ddefnydd helaeth o'r wybodaeth hon i wella ansawdd eu gwasanaethau.
- 51 Yr agwedd ar gymorth i ddysgwyr sy'n cael ei harfarnu orau yn y rhan fwyaf o ysgolion yr arolwg yw gwaith anogwyr dysgu dynodedig. Mae anogwyr dysgu fel arfer yn cadw cofnodion manwl iawn o'u gwaith a gallant ddangos ei effaith. Caiff effaith darpariaeth cymorth personol ei harfarnu'n dda hefyd yn y rhan fwyaf o ysgolion yr arolwg. Mae'r ysgolion hyn yn arfarnu ansawdd ac effaith gweithio mewn partneriaeth yn dda trwy gynnal trafodaethau rheolaidd gydag asiantaethau allanol. Hefyd, mae disgyblion sy'n cael cymorth personol yn aml yn wynebu problemau â phresenoldeb ac ymddygiad a gall ysgolion ddangos effaith gan ddefnyddio data presenoldeb ac ymddygiad.
- 52 Nid yw llawer o'r ysgolion yn arfarnu ansawdd yr hyfforddi dysgu a ddarperir gan athrawon a thiwtoriaid dosbarth yn ofalus trwy addysg bersonol a chymdeithasol a mentora ychwanegol. Prin y caiff y cyngor a'r arweiniad ar yrfaeodd a ddarperir ei arfarnu hefyd.
- 53 Mae llawer o ysgolion yn defnyddio data perfformiad i asesu effaith darpariaeth neu ymyriadau ychwanegol ar gyfer disgyblion y nodwyd eu bod yn tanberfformio yn y pynciau craidd. Fodd bynnag, yn aml, nid yw'r arfarniad yn drylwyr. Ychydig o ysgolion yn unig sy'n ymchwilio'n ofalus i beth oedd yn gweithio, beth nad oedd yn gweithio a pham. Diffyg arall yw bod mentora ychwanegol yn aml yn cael ei ddefnyddio pan mae disgyblion eisoes yn cael trafferth ac nid yw'r mwyafrif o ysgolion yn arfarnu'n llawn effaith y cwricwlwm a'r addysgu ar dangyflawni a chynnydd gwael. Mae lleiafrif yr ysgolion llwyddiannus yn sicrhau bod y cwricwlwm yn briodol a bod ansawdd yr addysgu yn gyson uchel.

Hyfforddiant a chymorth ar gyfer tiwtoriaid ac anogwyr

- 54 Mae bron pob un o'r anogwyr dysgu dynodedig wedi cael eu hyfforddi'n dda ar gyfer eu rôl. Maent wedi elwa ar yr hyfforddiant achrededig a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r staff anghenion dysgu ychwanegol sy'n darparu gwasanaethau cymorth personol ar gyfer y disgyblion sydd fwyaf agored i niwed wedi eu hyfforddi'n dda hefyd a gallant fanteisio ar wasanaethau cymorth arbenigol pan fydd angen.
- 55 Yn y mwyafrif o ysgolion, mae'r aelodau eraill o staff sy'n darparu hyfforddi dysgu, cyngor ac arweiniad ar gyfer mwyafrif o ddisgyblion yn llai parod ar gyfer y rolau hyn. Ychydig iawn o hyfforddiant y maent wedi'i gael ar sut i helpu disgyblion i ddatblygu medrau astudio neu sut i fentora disgyblion yn effeithiol. Yn ychwanegol, nid oes digon o hyfforddiant wedi'i seilio ar wybodaeth gyfoes am yrfaeodd, addysg bellach ac addysg uwch, a chyfleoedd hyfforddi. Mae hyn yn broblem benodol erbyn hyn gan fod llai o gyngor arbenigol ar yrfaeodd ar gael yn uniongyrchol i ysgolion. Yn y mwyafrif o ysgolion, mae gwybodaeth a dealltwriaeth ysgolion, staff a disgyblion ynglŷn â'r adnoddau ar-lein sydd ar gael iddynt yn gyfyngedig.

Rheoli adnoddau

- 56 O ganlyniad i'r gofyniad i ddarparu gwasanaethau cymorth i ddysgwyr, mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi cyflogi staff ychwanegol nad ydynt yn addysgu ac wedi gwneud newidiadau i'r adeiladau. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi sefydlu ardaloedd ag adnoddau cymorth dysgu lle gall disgyblion gael cymorth ychwanegol â'u medrau a'u hyfforddi. Mae gan lawer o ysgolion ganolfannau yn yr ysgol, sy'n aml yn cael eu hadnabod fel 'ystafelloedd cynhwysiant', lle caiff disgyblion â phroblemau ymddygiadol neu anghenion eraill eu cefnogi'n dda. Yn ychwanegol, mae gan fwyafrif o ysgolion 'ystafelloedd anogaeth' hefyd, sy'n darparu cymorth gwerthfawr i ddisgyblion sydd â phroblemau cymdeithasol ac emosiynol. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, caiff yr ardaloedd cymorth hyn eu staffio gan athrawon cymorth dysgu, cynorthwyr cymorth dysgu ac anogwyr dysgu dynodedig. Mae gweithwyr ieuencid, swyddogion lles addysg, ymgynghorwyr gyrfaedd a nyrsys o bryd i'w gilydd ynghlwm â'r ardaloedd cymorth hyn, sy'n ddefnyddiol.
- 57 Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu grantiau i ysgolion i gefnogi rhoi'r Fframwaith Llwybrau Dysgu 14-19 ar waith, gwella llythrennedd a rhifedd, a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Mae'r cyllid 14-19, y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion¹⁰ a'r Grant Amddifadedd Disgyblion¹¹ wedi galluogi ysgolion i gynyddu staffio ac adnoddau. Mae mwyafrif o ysgolion yn ddibynnol ar y grantiau hyn i barhau i ddarparu gwasanaethau cymorth i ddysgwyr. Maent wedi galluogi ysgolion i wneud lle i ardaloedd arbenigol, darparu hyfforddiant arbenigol, cyflogi staff cymorth ychwanegol a gwneud gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol gydag asiantaethau arbenigol yn bosibl.
- 58 Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion bartneriaethau buddiol gydag asiantaethau allanol sy'n darparu cymorth arbenigol, fel Gyrfa Cymru, gwasanaethau ieuencid, a gwasanaethau plant ac iechyd meddwl. Gan fod llawer o'r asiantaethau hyn yn lleihau eu gwasanaeth, mae hyn wedi arwain at yr angen i dargedu cymorth yn fwy manwl gywir at grwpiau penodol o ddisgyblion, er enghraifft y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phlant sy'n cael gofal. Er enghraifft, mae'n ofynnol i weithwyr ieuencid sydd ynghlwm wrth ysgolion ac ymgynghorwyr Gyrfa Cymru weithio gyda'r disgyblion sydd fwyaf agored i niwed yn unig erbyn hyn.
- 59 Nid oes gan leiafrif o ysgolion gynlluniau wrth gefn i reoli unrhyw ostyngiad pellach mewn cymorth allanol neu i'w galluogi i gadw'r staff ychwanegol sy'n darparu gwasanaethau cymorth i ddysgwyr.

¹⁰ Darperir Grant Effeithiolrwydd Ysgolion i gefnogi'r blaenoriaethau ar gyfer llythrennedd, rhifedd a lleihau effaith tlodi.

¹¹ Mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion i ysgolion ei ddefnyddio i wella cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac ar gyfer plant sy'n cael gofal. Mae wedi'i fwriadu i oresgyn y rhwystrau ychwanegol sy'n wynebu dysgwyr o gefndiroedd diffreintiedig, sy'n eu hatal rhag cyflawni cystal â'u cyfoedion, beth bynnag fo'u gallu.

Atodiad 1 – Sail y dystiolaeth

Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn defnyddio tystiolaeth o ymweliadau ag 20 ysgol uwchradd. Dewiswyd yr ysgolion ar hap ar gyfer yr arolwg hwn.

Mae'r sampl yn ystyried lleoliad daearyddol, cefndir economaidd gymdeithasol, maint yr ysgol a chyd-destunau ieithyddol. Yn yr ymweliadau hyn, fe wnaeth arolygwyr:

- gyfarfod â grwpiau cynrychioliadol o ddisgyblion;
- cynnal trafodaethau gydag arweinwyr canol ac uwch arweinwyr; a
- chyfarfod â'r rhai sy'n darparu gwasanaethau cymorth i ddysgwyr.

Defnyddiwyd tystiolaeth ychwanegol o'r canlynol:

- data perfformiad cyfnod allweddol 4;
- deilliannau arolygu;
- data presenoldeb;
- data ar ganrannau sy'n aros mewn addysg a hyfforddiant ar ôl cyfnod allweddol 4; a
- data ar y canrannau nad ydynt mewn addysg a hyfforddiant o 16 oed.

Rhestr o ysgolion yr ymwelwyd â nhw

Ysgol Dyffryn Ogwen, Gwynedd
Ysgol Glan Clwyd, Sir Ddinbych
Ysgol Brynhyfryd, Sir Ddinbych
Ysgol David Hughes, Ynys Môn
Ysgol Morgan Llwyd, Wrecsam
Ysgol Fendigaid Edward Jones, Sir Ddinbych
Ysgol Bryn Alyn, Wrecsam
Ysgol Uwchradd Elfed, Sir y Fflint
Ysgol Uwchradd Trefynwy, Sir Fynwy
Ysgol Uwchradd Bishopston, Abertawe
Ysgol Gymunedol Llangatwg, Castell-nedd Port Talbot
Ysgol Gymunedol Cwmtawe, Castell-nedd Port Talbot
Ysgol Sant John Lloyd, Sir Gaerfyrddin
Ysgol Lewis Pengam, Caerffili
Ysgol Sant Cenydd, Caerffili
Ysgol Gyfun Gatholig Uwchradd Cardinal Newman, RhCT
Ysgol Uwchradd Cas-gwent, Sir Fynwy
Ysgol Uwchradd Gatholig Joseff Sant, Casnewydd
Ysgol Gyfun Caerllion, Casnewydd
Ysgol Maesteg, Pen-y-bont ar Ogwr

Atodiad 2 – Astudiaethau achos

Mae pob un o'r astudiaethau achos hyn yn seiliedig ar ysgolion lle defnyddir dull strategol clir o ran darparu cymorth ar gyfer dysgwyr. Maent yn wynebu gwahanol heriau, ond mae eu darpariaeth yn cynnwys rhai nodweddion cyffredin:

- defnyddir data yn dda i olrhain, nodi anghenion a monitro cynnydd;
- caiff timau eu cydlynu'n dda;
- mae staff wedi eu hyfforddi'n dda ar gyfer eu rolau yn y broses;
- caiff effaith ei harfarnu'n ofalus; ac
- mae'r broses yn dechrau'n gynnar ac yn cynnwys disgyblion yn dda.

Astudiaeth achos 1: Ysgol Gyfun Caerllion, Casnewydd

Cyd-destun

Ysgol gyfun 11-18 cyfrwng Saesneg yw Ysgol Gyfun Caerllion. Mae tua 4% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.7%. Mae gan ryw 3% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 2.5%. Mae gan ryw 11% arall o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig heb fod ar ddatganiad, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 19.2%

Strategaeth

Nododd yr ysgol 10 rhwystr posibl sy'n atal disgyblion rhag llwyddo, beth bynnag fo'u cefndir. Mae'r rhain yn cynnwys tangyflawni (nodwyd trwy olrhain gofalus), dechrau yn yr ysgol yn hwyr, problemau iechyd, agwedd, presenoldeb, diffyg amgylchedd cartref priodol ar gyfer astudio preifat, a dyheadau afrealistig neu amhriodol.

Gweithredu

Caiff ystod o gymorth ei reoli gan ddau dîm. Mae un tîm yn canolbwyntio ar y disgyblion sydd fwyaf agored i niwed a'r tîm arall yn canolbwyntio ar weddill y disgyblion. Ceir cyfathrebu effeithiol rhwng y timau ac fe gaiff eu gwaith ei gydlynu'n dda gan uwch staff sy'n gyfrifol am safonau a lles.

Pan fydd disgyblion ym Mlwyddyn 9, caiff grŵp targed, sy'n cael ei adnabod fel y 'grŵp ymgynghorol', ei nodi gan dîm sy'n cynnwys penaethiaid blwyddyn, swyddog cymorth dysgu (sy'n goruchwyllo cynnydd disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, disgyblion sy'n cael gofal a disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim), a swyddog codi safonau (sy'n arwain tîm o staff cymorth dysgu ac anogwyr dysgu). Maent yn rhoi ymyriadau priodol ar waith, fel addysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Caiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd ac mae'r grŵp ymgynghorol yn newid yn unol ag angen. Yn ychwanegol, mae panel sy'n ymwneud â'r disgyblion sydd fwyaf agored i niwed a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyfarfod bob pythefnos i nodi a chynllunio hyfforddi ychwanegol, cymorth, cyngor ac arweiniad personol. Mae'r panel hwn yn cynnwys rheolwr y ganolfan cymorth dysgu, dirprwy bennaeth, gweithiwr ieuencid, swyddog cymorth dysgu a swyddog codi safonau.

Deilliannau

Mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 yn gosod yr ysgol yn gyson yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg ar sail lefelau hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae safonau yng nghyfnod allweddol 4 uwchlaw disgwyliadau yn gyson. Mae cyfraddau presenoldeb uwchlaw disgwyliadau hefyd.

Astudiaeth achos 2: Ysgol Maesteg, Pen-y-bont ar Ogwr

Cyd-destun

Ysgol gyfun 11-18 cyfrwng Saesneg yw Ysgol Maesteg. Mae tua 27% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.7% ar gyfer ysgolion uwchradd yng Nghymru. Mae tua 55% o'r disgyblion yn byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae disgyblion yn yr ysgol yn cynrychioli'r ystod gallu llawn. Yn unol â pholisi'r awdurdod lleol, nid oes gan unrhyw ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol. Mae gan ryw 28% o ddisgyblion angen addysgol arbennig o gymharu ag 19.2% yn genedlaethol.

Strategaeth

I godi dyheadau a helpu disgyblion i fynd ymlaen i addysg bellach ac addysg uwch, cyflogaeth neu hyfforddiant, mae'r ysgol yn darparu cymorth i gael gwared ar rwystrau a chwricwlwm sy'n bodloni anghenion disgyblion unigol.

Gweithredu

Mae gan yr ysgol system olrhain eang a manwl sy'n cynnwys casglu data lles. Defnyddir y system hon i fonitro cynnydd disgybl o'r adeg y mae'n dechrau yn yr ysgol. Caiff unrhyw ymyriadau, addasiadau i'r cwricwlwm a chymorth ychwanegol eu cofnodi ac mae'r wybodaeth yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer cyfweiliadau cynnydd un i un bob hanner tymor. Caiff y rhain eu hadnabod fel 'Pit Stops' ac mae disgyblion yn eu gwerthfawrogi'n fawr. Mae'r cyfweiliadau hyn yn ddigwyddiadau proffil uchel ac mae staff wedi cael eu hyfforddi'n ofalus o ran sut i'w cynnal. Caiff yr holl gymorth ychwanegol ei arfarnu'n ofalus ar gyfer ei effaith ar ddisgyblion unigol. Yn ychwanegol, mae'r ysgol wedi cyflwyno ystod ddefnyddiol o gyrsiau galwedigaethol lefel 2 a 3 ar gyfer y chweched dosbarth. Mae'r rhain yn cynnwys cymwysterau cynorthwydd addysgu. Mae disgyblion yn gwneud eu profiad gwaith yn yr ysgol yn cefnogi athrawon gyda disgyblion yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 ac maent yn gweithio mewn ysgolion cynradd lleol hefyd.

Deilliannau

Mae safonau yng nghyfnod allweddol 4 a phresenoldeb uwchlaw disgwyliadau. Mae cyfran y disgyblion nad ydynt yn ennill unrhyw gymwysterau ac nad ydynt yn mynd ymlaen i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant wedi gostwng o ryw 2% yn 2009 i 0% yn 2013. Mae'r bwlch mewn cyrhaeddiad yn nhrothwy lefel 2 rhwng y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys i'w cael yn

nhrothwy lefel 2 wedi gostwng. Rhwng 2009 a 2013, disgynnodd y bwch o ryw 20 pwynt canran. Yn genedlaethol, cynyddodd y bwch hwn o ryw un pwynt canran yn ystod y cyfnod hwn. Mae presenoldeb wedi gwella o ryw ddau bwynt canran er 2009.

Astudiaeth achos 3: Ysgol Gyfun Cwmtawe, Castell-nedd Port Talbot

Cyd-destun

Ysgol gyfun 11-16 cyfrwng Saesneg yw Ysgol Gymunedol Cwmtawe. Mae tua 19% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd ychydig uwchlaw'r cyfartaledd o 17.7% ar gyfer Cymru. Mae 23% o ddisgyblion yn yr ysgol ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig, o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 19.2% ar gyfer ysgolion uwchradd.

Strategaeth

Caiff anghenion disgyblion unigol eu nodi'n dda a chynhelir mentora wythnosol effeithiol. Caiff staff eu hyfforddi'n dda i gefnogi cynnydd disgyblion.

Gweithredu

Ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, cynhelir cynadleddau achos mewnol i adolygu perfformiad pob disgybl, targedau ac unrhyw faterion a allai effeithio ar eu cynnydd. Mae'r dull hwn yn golygu bod yr athrawon yn cael eu hysbysu'n dda am amgylchiadau pob disgybl y maent yn ei addysgu. Ailadroddir cynadleddau achos bob tymor i adolygu perfformiad unigol, gyda'r bwriad o nodi unrhyw gymorth sydd ei angen ar unigolion i wella ymhellach. Cynhelir y cynadleddau hyn yn fwy rheolaidd mewn cyfnodau datblygu hanfodol, er enghraifft yn ystod cyfnod allweddol 4.

Mae'r ysgol yn defnyddio'i system gwybodaeth reoli yn eithriadol o dda i gofnodi cynnydd dysgwyr a thargedu anghenion cymorth. Mae codau lliw ar gyfer cynnydd dysgwyr, sy'n helpu i amlygu anghenion sy'n codi. Mae monitro hyn yn wythnosol yn galluogi'r staff i ymateb i faterion sy'n codi a rhoi ymyriadau ar waith yn gyflym. Mae hon yn nodwedd hanfodol o effeithiolrwydd yr ysgol wrth fonitro a chefnogi cynnydd disgyblion.

Caiff disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 eu gweld yn unigol bob wythnos i adolygu perfformiad a gosod targedau newydd, gan nodi unrhyw gymorth gofynnol os bydd angen. Yn wreiddiol, roedd yr ysgol yn targedu disgyblion na fyddent efallai yn cyflawni ar drothwy lefel 2, ond canfuwyd bod y dull yn werthfawr wrth wella perfformiad yn fwy cyffredinol ac fe'i datblygwyd yn strategaeth gymorth ehangach. Mae ansawdd olrhain data a'r defnydd rheolaidd, systematig ac ymarferol a wneir ohono i lywio addysgu a chefnogi disgyblion yn arwain at safonau uchel. Mae staff yn defnyddio data yn hyderus ac mae hyn yn gwella'r cymorth a ddarperir ganddynt. Mae disgyblion yn gyfforddus iawn â'r cysyniad o dargedau personol a chael eu mesur yn erbyn y rhain. Maent yn gadarnhaol ynglŷn â'r modd y mae'r broses yn eu helpu i wella perfformiad. Mae hyn yn eu paratoi'n dda ar gyfer byd gwaith.

Deilliannau

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae'r ysgol wedi bod yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg ar gyfer bron pob un o'r dangosyddion allweddol yng nghyfnod allweddol 4 a bu tuedd gyson o wella. Mae perfformiad ymhell uwchlaw disgwyliadau wedi'u modelu. Mae cyfraddau presenoldeb uwchlaw disgwyliadau wedi'u modelu hefyd ac maent wedi gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg ar sail cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim am y pum mlynedd diwethaf.

Geirfa

Cymhwyster Lefel 2

Cymhwyster sydd gyfwerth â graddau A*-C mewn TGAU

Trothwy Lefel 2, gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg

Swm o gymwysterau ar lefel 2 sydd gyfwerth â phum cymhwyster TGAU ar raddau A*-C, gan gynnwys Saesneg, neu Gymraeg mamiaith a mathemateg

Trothwy Lefel 2

Swm o gymwysterau ar lefel 2 sydd gyfwerth â phum cymhwyster TGAU ar raddau A*-C, ond heb gynnwys Saesneg, neu Gymraeg mamiaith a mathemateg

Lefel 1

Cymhwyster sydd gyfwerth â graddau D-G mewn TGAU

Trothwy Lefel 1

Swm o gymwysterau ar lefel 1 sydd gyfwerth â phum cymhwyster TGAU ar raddau D-G

NACH

Nid ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant

SIY

Disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt

LAC

Plant sy'n derbyn gofal

Esboniad o eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir i ddisgrifio ein harfarniadau.

Y geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn y golofn ar yr ochr chwith yw'r rhai rydym yn eu defnyddio i ddisgrifio ein harfarniadau. Yr ymadroddion yn y golofn ar yr ochr dde yw'r esboniadau mwy manwl.

bron i gyd	gydag ychydig iawn o eithriadau
y rhan fwyaf	90% neu fwy
llawer	70% neu fwy
mwyafrif	dros 60%
hanner neu tua hanner	yn agos at 50%
lleiafrif	islaw 40%
ychydig	islaw 20%
ychydig iawn	llai na 10%

Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

Sue Halliwell AEM	Awdur yr adroddiad cylch gwaith
Alwyn Thomas AEM	Aelod o'r tîm
Alun Connick AEM	Aelod o'r tîm
Ray Owen AEM	Aelod o'r tîm